**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref WQ88831 WQ88832

Adam Price AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Adam.Price@senedd.cymru

1 Medi 2023

Annwyl Adam,

Isod, mae atebion i'ch Cwestiynau Ysgrifenedig diweddar er eich sylw.

***Pa ganran o'r grwpiau blaenoriaeth ar gyfer eu brechu yn erbyn MPox sydd wedi cael eu brechlyn cyntaf a'u hail frechlyn? (WQ88831)***

Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023, mae data o'r Cynllun Arolygu Iechyd Rhywiol yng Nghymru yn amcangyfrif bod 69.1% o'r rhai sy'n gymwys wedi cael 1 dos o frechlyn brech m, a 4.3% wedi cael 2 ddos. Gall y ffigurau hyn newid yn dilyn rhagor o gyflwyniadau.

Ers yr ymateb cychwynnol i'r brigiad o achosion, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn ystyried sefydlu system wyliadwriaeth fwy cadarn ar gyfer y tymor hir, er y bydd llawer yn dibynnu ar gyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu mewn perthynas â dyfodol y rhaglen frechu rhag brech m.

Mae timau cyfathrebu Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithio'n agos gyda grwpiau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r rhai sy'n gymwys. Cyhoeddwyd cyfathrebu wedi'i dargedu gyda ffocws o'r newydd ar annog pobl i fanteisio ar y brechlyn cyn ac yn ystod tymor yr haf. Er hynny, mae cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio arno wedi bod yn heriol yn dilyn gostyngiad yn nifer yr achosion o'r feirws.

***A yw Llywodraeth Cymru bellach yn argymell bod angen dau frechlyn yn erbyn MPox ar grwpiau blaenoriaeth ac, os felly, pryd y gwnaeth fabwysiadu y safbwynt hwnnw? (WQ88832)***

Mae strategaeth frechu rhag brech m Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022, ac a gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

nodi y dylid blaenoriaethu dosau cyntaf yn ystod cyfnod cychwynnol brigiad o achosion, ac y dylid cynnig ail ddos i'r rhai sy'n wynebu risg uwch barhaus o ddod i gysylltiad â'r frech. Cafodd y polisi hwn ei fabwysiadu yng Nghymru o fis Mehefin 2022 ymlaen.

Ar 26 Medi 2022, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yn argymell blaenoriaethu rhoi dau ddos o frechlyn brech m i'r rhai sydd mewn grwpiau risg uchel – dynion hoyw, deurywiol, a dynion eraill sy'n cael rhyw gyda dynion, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol rheng flaen – yn dilyn cyhoeddi strategaeth ddiwygiedig Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services